

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru:
Tlodi ac Anghydraddoldeb**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru

Twitter: [@SeneddCCLIL](https://twitter.com/SeneddCCLIL)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a
Llywodraeth Leol

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru:
Tlodi ac Anghydraddoldeb**

Mehefin 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gyloch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Christine Chapman
(Cadeirydd)
Llafur Cymru
Cwm Cynon



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Alun Davies
Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Jocelyn Davies
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Gwyn Price
Llafur Cymru
Islwyn



Gwenda Thomas
Llafur Cymru
Castell-nedd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Roedd yr Aelod a Ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



John Griffiths
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd

Cynnwys

Crynodeb o gasgliadau ac argymhellion	1
Arweinyddiaeth ac atebolrwydd	1
Deall tlodi	2
Pwy sy'n byw mewn tlodi?.....	2
Cynyddu incwm y cartref	3
1. Trosolwg	6
Sut mae mesur tlodi?	6
Beth yw profiad pobl o dlodi yng Nghymru?	6
Canfyddiadau'r Pwyllgor	9
2. Arweinyddiaeth ac atebolrwydd	11
Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi	11
Arweinyddiaeth	12
Cyllidebau ac atebolrwydd	13
Cydlynu ac ymgysylltu	14
Dyletswydd economaidd-gymdeithasol	15
3. Deall tlodi	20
Diffiniad.....	20
Tlodi o ran bwyd	21
Tlodi tanwydd	22
Tai	23
4. Pwy sy'n byw mewn tlodi?	27
Agweddau'r cyhoedd tuag at dlodi.....	27
Demograffeg.....	28
5. Cynyddu incwm y cartref	35
Rôl polisi economaidd o ran mynd i'r afael â thlodi	35
Gwneud yn fawr o incwm.....	39
Taliadau argyfwng.....	41
Atodiad	46

Cylch gorchwyl.....	46
Dull y Pwyllgor o weithredu	46
Gwaith allgymorth.....	46

Crynodeb o gasgliadau ac argymhellion

Yng Nghymru, mae mwy nag un o bob pump yn byw mewn tlodi. Ers dechrau'r mileniwm mae lefel y tlodi yng Nghymru wedi aros yn weddol debyg. Ar hyn o bryd, dim ond Llundain sydd â lefel uwch o dlodi na Chymru (28%), ac mae Cymru'n gyfartal â Gorllewin Canolbarth Lloegr, gyda 23% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi. Mewn ardaloedd eraill yn y DU sydd â thlodi uchel, fel gogledd-ddwyrain Lloegr, mae lefel y tlodi wedi gostwng yn fwy nag yng Nghymru dros yr un cyfnod.

Arweinyddiaeth ac atebolrwydd

1. Rydyn ni'n pryderu'n fawr am ddiffyg cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lleihau tlodi, yn enwedig o ystyried ei hymrwymiad hirdymor a'i buddsoddiad yn y mater hwn. Credwn mai'r rheswm am hyn, yn rhannol o leiaf, yw'r dull a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth hyd yma, sy'n canolbwyntio ar drin symptomau tlodi yn hytrach na'r achosion sylfaenol.
2. Er ein bod yn deall nad yw'r prif ysgogwyr ar gyfer lleihau tlodi, megis treth a budd-daliadau, wedi'u datganoli, credwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy o lawer o fewn cyfyngiadau'r setliad datganoli presennol. Croesawn ymrwymiad Llywodraeth y DU yn ddiweddar i ddatganoli'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a gobeithiwn y gallai fod yn ddull defnyddiol i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gydlynus yn y ffordd y maen nhw'n trechu tlodi.
3. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy atebol am leihau tlodi yng Nghymru. Mae'r trefniadau presennol yn fewnblyg, yn anghymesur ac yn aneffeithiol. Mae angen i'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector academiaidd a'r trydydd sector gyfrannu mwy at graffu a chreu polisiau. Nid yw lleihau tlodi yn rhywbeth y gellir ei gyflawni gan y llywodraeth ar ei phen ei hun.
4. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy arloesol yn ei dull o leihau tlodi. Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni wedi cyfeirio at nifer o enghreifftiau o arferion da (cynllun HomeLife, Changing Lives, [prosiect 'Lle Dwf'n' Tredegar](#), Cynghrair Tlodi yr Alban a chronfa tlodi dybryd y Groes Goch), a dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhain o ddifrif.
5. Hefyd, mae angen i Lywodraeth Cymru wrando ar brofiadau pobl o dlodi a llunio polisiau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau i unigolion, gan ystyried anghenion, nodweddion ac amgylchiadau gwahanol.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cynghrair Lleihau Tlodi Cymru, a fydd yn cynnwys Gweinidogion a swyddogion (gan gynnwys llywodraeth leol), ynghyd â'r trydydd sector, a'r sectorau preifat ac academiaidd. Dylai hefyd gynnwys cynrychiolwyr pobl sy'n byw mewn tlodi. Dylai'r grŵp hwn fod yn sail i ddatblygu polisiau arloesol, gweithredu a chraffu'n barhaus ar lefelau tlodi yng Nghymru.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Astudiaeth 'Lle Dwfn', Tredegar.

Deall tlodi

6. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth fwy trwyadl o'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Dylai fabwysiadu diffiniad clir o dlodi, yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau, yn hytrach na'r mesur safonol sy'n seiliedig ar incwm. Dylai dull y llywodraeth o drechu tlodi gael ei lunio ar sail mynd i'r afael ag anghenion dynol sylfaenol pob person – mae hyn yn golygu bwyd, cysgod a thanwydd. Hefyd, dylai'r diffiniad gyfeirio at yr ymchwil ynghylch 'safon incwm gofynnol' Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n seiliedig ar yr hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn ei feddwl yw digon o arian i fyw arno er mwyn byw mewn ffordd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu diffiniad clir o dlodi. Awgrymw'n fod y diffiniad yn seiliedig ar fesur a yw adnoddau person yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion dynol sylfaenol, ac i gael safon byw derbyniol sy'n ei alluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad yn ei strategaeth trechu tlodi i sicrhau bod gan bob person yng Nghymru fwyd, lloches a chynhesrwydd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau manwl a thargedau ar gyfer tlodi bwyd, tlodi tanwydd a digartrefedd.

Pwy sy'n byw mewn tlodi?

7. Nid un grŵp penodol yw pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wella'r data sydd ganddi am dlodi i adlewyrchu hyn.

8. Oherwydd fod prinder data, clywsom fod llunwyr polisi ar hyn o bryd yn 'gweithio yn y tywyllwch'. Mae hyn yn annerbyniol. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gref sy'n nodi'n union

pwy sydd mewn tlodi, ac sy'n disgrifio'n glir ddwystr a dyfalbarhad tlodi yng Nghymru. Dylai hyn fynd law yn llaw â gwelliannau dramatig i'r trefniadau ar gyfer monitro rhaglenni presennol sy'n gallu dangos cynnydd pendant o ran lleihau tlodi, neu ddiffyg hynny. Fel arall, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau: polisi yn cael ei ddatblygu heb dystiolaeth; perfformiad yn cael ei fonitro heb ddata.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn comisiynu ymchwil sy'n gwella'n sylweddol ansawdd, cwmpas a graddau'r data am dlodi yng Nghymru. Dylai'r ymchwil hon sefydlu pa grwpiau o bobl yng Nghymru sy'n debygol o fod yn byw'n anghymesur mewn tlodi, a nodi'r gyfres o ymyriadau sy'n gweithio orau i wahanol bobl, yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na si.

Cynyddu incwm y cartref

9. Prif fethiant dull y llywodraeth o drechu tlodi yw diffyg polisi economaidd clir. Mae angen mynd i'r afael â hyn, a'i ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth effeithiol ar gyfer lleihau tlodi. Rydyn ni'n deall bod [ymchwiliad](#) y Pwyllgor Menter a Busnes i fasnach a mewnfuddsoddi wedi clywed bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch ei strategaeth economaidd. Argymhellodd y Pwyllgor, yn ei [adroddiad](#) ym mis Hydref 2014, y dylai Llywodraeth Cymru lunio "strategaeth datblygu economaidd glir". Credwn yn gryf mai dim ond trwy fynd ati'n feiddgar i ailwampio'r economi yn y tymor hir y gellir trechu graddfa'r tlodi yng Nghymru.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, yn egluro sut y mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'i pholisiau a'i hymyriadau ar gyfer trechu tlodi.

10. Mae hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Oherwydd y newidiadau i'r farchnad lafur, nid yw gwaith bellach yn ffordd syml allan o dlodi.

11. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhan honno o'r farchnad lafur yng Nghymru lle mae'r sgiliau'n isel, fel y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch. Dylai fynd ati i wella ansawdd y swyddi sgiliau isel gan ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddi eisoes, er enghraifft drwy gyflwyno rheolau caffael ac amodau ar arian grant. Byddai hyn yn gwneud llawer i wella ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef tlodi mewn gwaith.

12. Mae'r gwella'r ymgysylltu â'r sector preifat yn hollbwysig i leihau tlodi. Dylai swyddi a gaiff eu creu gan fentrau'r llywodraeth fod yn rhai ansawdd uchel ac yn cynnig cyflogau deche, contractau diogel a pheynnau cyflogaeth da, fel gofal plant ac oriau hyblyg.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dylanwad ar y rhan honno o'r farchnad lafur lle mae'r sgiliau'n isel (yn enwedig y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch), drwy brosesau caffael ac amodau ar arian grant, er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef tlodi mewn gwaith. Mae angen gwneud hyn ar y cyd â'r sector preifat drwy wella'r ymwneud â'r sector.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn pwysu am ddatganoli'r Rhaglen Waith, fel bod helpu pobl i gael gwaith yn seiliedig ar wybodaeth leol ac yn canolbwyntio ar bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur. Dylai hyn gynnig atebion wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl, yn enwedig menywod a phobl anabl.

13. Hefyd, mae sicrhau'r incwm mwyaf posibl ar gyfer pobl na allant weithio yn bwysig dros ben. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i annog mwy o bobl i hawlio'u budd-daliadau, fel y Credyd Pensiwn, ac mae darparu gwasanaethau cynghori yn hanfodol i hyn. Clywsom gan ymatebwyr y gallai Credyd Pensiwn heb ei hawlio fod yn werth dros £168 miliwn i economi Cymru, ond nid oedd [Adolygiad o Wasanaethau Cynghori](#) Llywodraeth Cymru yn 2013 yn cynnwys unrhyw argymhellion o ran cynyddu'r nifer sy'n hawlio'r Credyd Pensiwn.

14. Rydyn ni'n pryderu bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau cynghori cyffredinol, yn hytrach na'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer pobl ag anghenion penodol, yn enwedig pobl anabl.

15. Rydyn ni hefyd yn pryderu am y ddarpariaeth ar gyfer gwneud taliadau mewn argyfwng. Nid oedd digon yn hawlio o Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru, ac felly penderfynodd Llywodraeth Cymru leihau maint y Gronfa yng nghyllideb 2015-16 (o'r £10.2 miliwn gwreiddiol i £7.2 miliwn). Fodd bynnag, rydyn ni wedi cael ar ddeall mai'r rheswm am y tanwariant hwn oedd anawsterau o ran cael mynediad i'r gronfa ac nad oedd digon yn gwybod amdani, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg o ran angen.

16. Ers i'r Gweinidog ddod gerbron y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwerthusiad o'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys symleiddio'r ffurflenni cais, darparu hyfforddiant ffurfiol ar gyfer staff a gweithwyr achos

perthnasol, ac ehangu'r amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cael drwy'r gronfa. Er bod y rhain i'w croesawu, nodwn mai ffocws y gwerthusiad oedd ystyried a oedd y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei gweithredu yn ôl y bwriad, ynghyd â materion ehangach yn ymwneud â'r prosesau i'w dilyn.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i annog mwy i hawlio'u budd-daliadau, fel y Credyd Pensiwn a'r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru.

Argymhellwn fod y meini prawf cymhwyster ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael eu llacio, er enghraifft drwy beidio â gofyn i bobl wneud cais am fenthyciad cyllidebu cyn gwneud cais am gymorth o'r Gronfa. Argymhellwn hefyd fod y dyraniad gwreiddiol o £10.2 miliwn ar gyfer y Gronfa yn cael ei adfer.

1. Trosolwg

17. Mae'r lefelau tlodi wedi aros yr un fath i raddau helaeth yn y DU ac yng Nghymru am y 25 mlynedd diwethaf, a mae'r llywodraethau cartref a rhyngwladol yn ailfeddwl eu dulliau o drechu tlodi.

Sut mae mesur tlodi?

18. Mae tlodi yn cael ei ddiffinio yn ystadegol yn y DU a'r UE fel incwm cartref sy'n is na 60% o'r canolrif cenedlaethol. Gelwir hyn yn "dlodi incwm cymharol" oherwydd bod y llinell dlodi yn symud yn unol â'r canolrif o flwyddyn i flwyddyn. Os yw'r incwm canolrifol yn mynd i fyny, yna mae'r llinell dlodi gymharol hefyd yn cynyddu. Mae'r dangosydd tlodi incwm cymharol yn mesur a yw aelwydydd tlotach yn cadw i fyny â'r rhai sydd ar incwm canolig.

19. Y prif gyfiawnhad dros ddefnyddio mesur cymharol o dlodi yw bod barn cymdeithas ynghylch y safon byw sy'n dderbyniol yn symud gyda'r oes, wrth i'r adnoddau sydd ar gael i'r gymdeithas honno gynyddu.

20. Mae diffiniadau eraill o dlodi yn cael eu defnyddio hefyd, fel diffiniad Sefydliad Joseph Rowntree: 'pan nad yw adnoddau person yn ddigon i ddiwallu ei anghenion sylfaenol, gan gynnwys ei allu i gymryd rhan yn gymdeithasol.'

Beth yw profiad pobl o dlodi yng Nghymru?

21. Mae tlodi yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU, a rhagwelir y bydd y gyfran o boblogaeth Cymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn cynyddu. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn rhagweld y gallai tlodi plant yng Nghymru gynyddu tua thraean erbyn 2020. Mae Achub y Plant yn rhagweld hyd yn oed rhagor o gynnydd, gyda'r gyfradd tlodi plant yn uwch na lefelau cynnar 1990 erbyn 2020.

22. Mae Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar [Gartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog](#), ond cyfartaleddau tair blynedd yw'r ffigurau ar gyfer Cymru.


23. Mae'r ystadegau swyddogol yn dangos bod 16.8% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi yn y DU yn 2012-13. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn cyhoeddi adroddiadau monitro bob dwy flynedd ar dlodi yng Nghymru. Roedd [Adroddiad 2013](#) yn cynnwys y canfyddiadau canlynol:

- Dros y tair blynedd hyd at 2011/12, roedd 690,000 o bobl (23%) yn byw mewn aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Er nad yw'r cyfanswm wedi newid rhyw lawer ers degawd cyntaf y mileniwm newydd, mae'r gyfran mewn teuluoedd sy'n gweithio wedi codi'n gyson.
- Roedd patrwm tlodi mewn-gwaith ledled Cymru'n wahanol i batrwm tlodi allan-o-waith. Fel cyfran o'u poblogaethau o oedran gweithio, roedd gan y Gorllewin, y Gogledd Orllewin a'r Dwyrain (ardaloedd gwledig yn bennaf) niferoedd uchel yn derbyn budd-daliadau mewn-gwaith, tra bo nifer isel gan Gaerdydd. O'i gyferbynnu, roedd gan y chwe Chwm yn Ne Cymru niferoedd uchel yn hawlio budd-daliadau diweithdra.
- Roedd gan ryw 29% o bobl mewn teuluoedd a oedd yn 'gweithio'n rhannol' incwm aelwyd isel, ond dim ond 7% o'r rheiny mewn teuluoedd a oedd yn 'gweithio'n llawn' oedd ag incwm aelwyd isel. I rai, gweithio mwy o oriau yw rhan o'r ateb i dlodi mewn-gwaith.
- Roedd oddeutu 235,000 o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru'n anabl a heb fod mewn gwaith; roedd ychydig dros draean ohonynt yn dymuno cael gwaith am dâl. Ar y cyfan, roedd 217,000 o bobl yng Nghymru heb waith ond yn dymuno cael gwaith yn 2012.”¹

24. Ers 1994, mae canran y bobl yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi wedi gostwng ychydig bach, o 27% o'r boblogaeth i 23%. Mewn rhanbarthau eraill sydd â lefelau hanesyddol uchel o dlodi, fel gogledd-ddwyrain Lloegr, bu'r gostyngiad mewn tlodi yn fwy sylweddol, o 29-30% yng nghanol y 1990au i 21% yn y cyfnod rhwng 2010 a 2013.

¹ [Monitro tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru 2013](#), Sefydliad Joseph Rowntree


Ffigur 1: Canran y boblogaeth sy'n byw mewn tldi (ar ôl costau tai), yn ôl rhanbarth a gwlad, 2010-13



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau [Aelwydydd sydd ag Incwm Is na'r Cyfartaledd](#)

25. Bellach, dim ond Llundain sydd â lefel uwch o dlodi na Chymru (28%), ac mae Cymru'n gyfartal â Gorllewin Canolbarth Lloegr, gyda 23% o'r boblogaeth yn byw mewn tldi. Mae gan bob gwlad arall yn y DU a phob un o ranbarthau Lloegr lefelau is o dlodi na Chymru, yn ôl ystadegau [diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau](#).

Ffigur 2: Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd â llai na 60 y cant o incwm canolrifol aelwydydd, fesul gwlad, ar ôl costau tai, 1994-2013



Ffynhonnell: Yr Adran Gwaith a Phensiynau [Aelwydydd sydd ag Incwm Is na'r Cyfartaledd](#)

26. Mae natur tlodi hefyd yn newid. Bu newid sylweddol yn y grwpiau o bobl sydd yn y perygl mwyaf o dlodi. Mae'r risg bod pobl hŷn yn dioddef tlodi wedi gostwng yn y 15 mlynedd diwethaf; erbyn hyn y ffigur hwnnw yw'r isaf yn hanesyddol, sef 14%. Ond mae'r risg bod plant a phobl o oedran gweithio mewn tlodi wedi aros yn ddigyfnewid ar y cyfan, ac mae wedi codi yn achos rhai grwpiau.

27. Yn erbyn y cefndir hwn o lefelau tlodi ystyfnig o uchel, mae gan Lywodraeth Cymru dasg anodd wrth gyflawni nod ei [Rhaglen Lywodraethu](#) o 'drechu tlodi ac amddifadedd materol'.

Canfyddiadau'r Pwyllgor

28. Mae'r diffiniad o dlodi wrth wraidd ein casgliadau. Cawsom gryn dipyn o dystiolaeth a oedd yn adleisio gwaith ymchwil blaenorol, a ganfu mai'r cam cyntaf tuag at fynd i'r afael â thlodi yw ei ddeall yn well.

29. Er bod y seilwaith i drechu tlodi yng Nghymru yn gymharol dda, cawsom dystiolaeth hefyd bod y diffyg dealltwriaeth am dlodi, ynghyd â'r ffaith bod polisïau a rhaglenni yn cael eu gweithredu'n anghyson, wedi golygu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran lleihau'r ffigurau tlodi cyffredinol.

30. Nid yw rhai o'r prif ddulliau a allai ddylanwadu ar dlodi, fel y system dreth a budd-daliadau, wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae ymyriadau eraill ar gael i Lywodraeth Cymru o fewn y setliad datganoli presennol.

31. Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, awgrymodd yr ymatebwyr, drwy dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig, ymweliadau prosiect a digwyddiadau bord gron, sut y gallai Llywodraeth Cymru wella ei dull o fynd i'r afael â thlodi. Roedd y rheini'n cynnwys:

- ffocws strategol ar ddiwallu'r anghenion gofynnol;
- sefydlu diffiniad clir o dlodi, yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau;
- gwella data ar dlodi i dargedu adnoddau at y rheini sydd fwyaf mewn angen;
- cysylltiad cryfach â pholisi economaidd; a
- gwell dealltwriaeth o ochr sgiliau isel y farchnad lafur.

32. Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio sut y gellir gwella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thlodi drwy wella dealltwriaeth, gwella

arweinyddiaeth a chydlynu, ynghyd â chymau gweithredu penodol i gynyddu incwm cartrefi.

2. Arweinyddiaeth ac atebolrwydd

33. O ran trechu tlodi, nod Llywodraeth Cymru, fel y disgrifia yn ei [Rhaglen Lywodraethu](#), yw "lleihau tlodi, yn enwedig tlodi parhaus rhai o'n pobl a'n cymunedau tlotaf, a lleihau'r tebygrwydd o dlodi yn y dyfodol."

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

34. Yn 2012 y cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru gyntaf, a chafodd ei "adnewyddu" yn 2013 ac yn 2014.

35. Mae tri nod cyffredinol i'r [Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi](#) presennol:

- atal tlodi;
- helpu pobl o'u tlodi; a
- chamau i liniaru effaith tlodi.

36. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn dwyn ynghyd raglenni tlodi allweddol fel Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Twf Swyddi Cymru, y Grant Amddifadedd Disgyblion, undebau credyd, gwasanaethau cynghori a mentrau iechyd.

37. Yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod maint yr her o drechu tlodi. Rhai o'r ffactorau sy'n gwaethygu'r her hon, yn ôl y Llywodraeth Cymru, yw'r hinsawdd economaidd bresennol, costau byw cynyddol, ac agenda diwygio lles a mesurau llymder eraill Llywodraeth y DU.

38. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r diffyg rheolaeth sydd ganddi dros y system budd-daliadau, a'r ysgogiadau economaidd allweddol, yn golygu bod "terfyn ar yr hyn y gallwn ei wneud i wella bywydau'r trigolion hynny fydd yn teimlo effaith yr holl newidiadau hyn".

39. Ar hyn o bryd, mae gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gyfrifoldeb cyffredinol am drechu tlodi, gan gynnwys cyflawni'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Fodd bynnag, mae gan bob Gweinidog gyfrifoldeb yn ei bortffolio ei hun am gyfrannu at nod y Llywodraeth o leihau tlodi.

Arweinyddiaeth

40. Roedd consensws cyffredinol ymysg yr ymatebwyr bod trechu tlodi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'i bod yn parhau i ddangos ymrwymiad i'r agenda hon. Fodd bynnag, roedd yn amlwg y gellid gwneud mwy i drosi ymrwymiad y Llywodraeth yn ostyngiad clir mewn lefelau tlodi.

41. Gan gyfeirio at y mater o flaenoriaeth, dywedodd Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree:

“The Welsh Government Ministers have stated on many occasions that ‘tackling poverty’ is its number one priority. It has introduced a raft of legislation policies and mechanisms to support this objective”.

42. Cyfeiriwyd at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, Bwrdd Gweithredu'r Strategaeth Trechu Tlodi, a hyrwyddwyr gwrthdlodi llywodraeth leol fel enghreifftiau o ddulliau o'r fath.

43. Ychwanegodd Sefydliad Bevan:

“(…) there are very positive statements from the First Minister and across many, if not all, Ministers as well, and clear directions to public bodies that they should be doing something to tackle poverty. I think that we actually have quite a good political and administrative infrastructure there, and that is very welcome (...) simply having that commitment and having that strategy is recognised to make a difference.”

44. Yn gysylltiedig â'r uchod, cyfeiriodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) at "hanes cryf ac arweinyddiaeth" Llywodraeth Cymru ym maes trechu tlodi ac anghydraddoldeb. Dywedodd:

“There is some evidence at a strategic level of the Welsh Government organising itself differently to facilitate cross government action and to drive operational integration across Government departments.”

45. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree yn cwestiynu a yw'r mesurau hyn wedi gwneud gwahaniaeth. Clywsom ei bod wedi bod yn anodd mesur effaith y rhaglenni tlodi. Canfu [gwerthusiad diweddar o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf](#) fel a ganlyn:

“Un her bwysig a pharhaus i'r Rhaglen yw cael data monitro perfformiad sy'n gadarn ac yn gyson. (...)”

“Ac ystyried pa mor gymhleth yw mesur rhai o'r canlyniadau yr anelir atynt ... mae'r canllawiau hyn yn hollbwysig os yw'r Rhaglen am ddeall yn iawn beth y mae'n ei gyflawni. Heb hyn, mae'n bosibl na fydd modd dangos yn bendant beth yw effaith y Rhaglen, na chymharu ansawdd canlyniadau gwahanol weithgareddau ac ardaloedd.”

46. Cyfeiriodd Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree at werthusiad IPSOS Mori a'r New Policy Institute o agweddau at dlodi plant, gan ddod i'r casgliad a ganlyn: “the combination of political priority and having the TPAP in place has raised the profile of the issue [of child poverty] and helped to secure resources.”

47. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, wedi mynegi siom ynghylch colli aelod penodol o'r Cabinet gyda chyfrifoldeb lwyr am drechu tlodi, yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet ym mis Medi 2014. Gan gyfeirio at hyn, dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

“(...) there is a need for Welsh Government to evidence that tackling poverty remains a key priority of Government business. In our view, the First Minister has the opportunity to lead a whole Government approach by pressing Ministers to focus investment and make transparent the resources to tackle poverty in their respective departments.”²

48. Dywedodd Barnardo's Cymru bod cael Aelod Cabinet penodol ar gyfer trechu tlodi wedi darparu "ffocws cryf". Dywedodd bod gan y Gweinidog "bortffolio eang iawn" erbyn hyn, ac awgrymodd y gallai hyn fod â goblygiadau ar gyfer parhad y ffocws ar drechu tlodi.

Cyllidebau ac atebolrwydd

49. Soniodd yr ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree, am "gyllideb gymharol fach" Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi, gan ddweud:

“Given the high priority afforded to ‘tackling poverty’, the relatively small budget specifically earmarked for it only makes sense if the major spending departments have fully incorporated ‘tackling

² Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 21

poverty' in their own priorities, policies and programmes. Progress has been made but there is still more to be done.”³

50. Awgrymodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddiogelu ei chyllideb ar sail tlodi er mwyn sicrhau tryloywder a chaniatáu ar gyfer gwella craffu.

51. Soniodd Age Cymru am yr hyn a oedd, yn ei farn ef, yn "elfen gylchol" i'r amcanion a'r cyfeiriadau mewn strategaethau trawsbynciol fel y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru. Esboniodd fod y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru yn nodi atebion allweddol i dlodi ymhlith pobl hŷn, fel manteisio ar fudd-daliadau, a'i bod yn cyfeirio at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi fel y dull cyflawni. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi diweddaraf yn cyfeirio at y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn fel ffordd o gyflawni amcanion, ac nid oes cyfeiriad pendant at gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau fel amcan.

52. Aeth Age Cymru ymlaen i ddweud:

“We fear that the circular nature of many of the references, and the reliance on other departments across Welsh Government to deliver many of the actions, may result in elements of the Tackling Poverty Action Plan experiencing the same issue.”⁴

Cydlynu ac ymgysylltu

53. Galwodd Cyngor Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Lywodraeth Cymru i roi cyfeiriad strategol clir, ac i gyfleu'r polisïau trechu tlodi yn well i lywodraeth leol. Dywedodd Cyngor ar Bopeth Cymru, er bod enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth rhwng y trydydd sector a hyrwyddwyr gwrthdlodi awdurdodau lleol, "mewn [ardaloedd] eraill ni cheir unrhyw berthynas o'r fath, ac rydym yn teimlo y byddai perthynas gryfach rhwng hyrwyddwyr Gwrthdlodi a chanolfannau Cyngor ar Bopeth Lleol yn ennyn gwell atebion a gynhyrchir ar y cyd i broblemau lleol.”⁵

54. Holodd Sefydliad Joseph Rowntree a oedd achos dros gael grŵp ar wahân neu sefydliad annibynnol yn canolbwyntio ar ddod â'r rhai sy'n ymwneud â thlodi at ei gilydd. Esboniodd fod cynghrair tlodi yn yr Alban. Corff ymbarél yw hwn i bob pwrpas, sy'n eiriol yn annibynnol ar y materion

³ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 03

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 05

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 11

tlodi ac yn ymateb iddyn nhw. Mae sefydliad tebyg yn Iwerddon hefyd. Mae'r cynghreiriau hyn yn dod â'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector academiaidd a'r trydydd sector at ei gilydd i gydgysylltu camau gweithredu er mwyn trechu tlodi.

55. Cyfeiriodd yr Athro Jane Millar at y Combat Poverty Agency, a sefydlwyd gan Lywodraeth Iwerddon, fel enghraifft o arfer da a allai, efallai, fod o gymorth i Lywodraeth Cymru.

56. Mae tystiolaeth yng [ngwaith ymchwil y New Policy Institute](#) y gall grwpiau o'r fath fod yn llwyddiannus o ran atebolrwydd, ymgysylltu allanol (y tu hwnt i'r llywodraeth), monitro a gwerthuso:

“The creation of dedicated institutions or systems of governance tasked with overseeing the development of [an] anti-poverty strategy seems to contribute to the success of a strategy. The Combat Poverty Agency (CPA) in Ireland is a notable example. The CPA advised government throughout the development process and acting as an intermediary between government and the community and voluntary sectors ensured that the real experiences of people in poverty reached those tasked with developing the strategy.”⁶

57. Yn yr un modd, yng Ngwlad Belg, ffurfiwyd y Gwasanaeth Trechu Tlodi, Ansefydlogrwydd ac Allgáu Cymdeithasol er mwyn cynnal deialog rhwng gwahanol rannau'r llywodraeth a rhanddeiliaid allanol.⁷

58. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnal [Tasglu Gwrthdlodi y Trydydd Sector](#), sy'n ffocws ar gyfer cydlynu gweithgareddau a chefnogi'r sector i weithio'n fwy strategol. Fe'i sefydlwyd i ddatblygu dull sector cyfan o drechu tlodi.

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

59. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Oxfam Cymru a Barnardo's Cymru yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu dyletswydd gydraddoldeb economaidd-gymdeithasol ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru, a allai fod yn arf ychwanegol defnyddiol i drechu tlodi. Byddai'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus roi sylw i gydraddoldeb economaidd-gymdeithasol wrth

⁶ New Policy Institute, [International and historical anti-poverty strategies: evidence and policy review](#)

⁷ *Ibid.*

wneud penderfyniadau, ynghyd â'r nodweddion gwarchoddedig fel rhyw, oedran, anabled, hil, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

60. Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

“Legislation can be a key driver of change – and there is potential (as yet unrealised) for the law to accelerate further integration by mainstreaming and deepening the legal commitment to equality and making practical links to the tackling poverty agenda through implementation of the socio-economic duty.”⁸

61. Yn yr un modd, dywedodd Oxfam Cymru:

“(…) the commitment from the Welsh Government to implement a socio-economic equality duty on public authorities in Wales could be an excellent first step to ensure that government policies and private sector actions have a genuinely positive impact on the most disadvantaged Welsh people and the communities in which they live.”⁹

62. Yn ddiweddar, roedd cytundeb Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU yn cynnwys ymrwymiad i ddatganoli'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*, a fyddai'n galluogi ddyletswydd hon i gael ei chychwyn yn achos Cymru.

63. Roedd Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil ar y mater yn 2013.¹⁰ [Fel y soniwyd y llynedd yn ein hymchwiliad i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru](#), efallai y bydd angen aildrafftio'r ddyletswydd cyn y daw i rym yng Nghymru.

64. Trafododd yr ymatebwyr hefyd sut y gallai'r Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Barn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) oedd: “the Future Generations Bill presents an opportunity to explore how equality and anti-poverty work can be effectively woven together, both in terms of understanding need and developing a more integrated approach to planning”.¹¹

65. Ychwanegodd Oxfam Cymru fel a ganlyn:

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 21

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW17

¹⁰ Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, [ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru](#), Tachwedd 2013

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 26

"(...) the [socio-economic] duty could be enforced by the independent Equalities Commissioner or Future Generations Commissioner who would ensure spending decisions are poverty proofed and communities wishing to challenge Government policies and private sector action that do not contribute to sustainable development and socio-economic equality are supported."¹²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

66. Wrth roi sylwadau ar wneud trechu tlodi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog "across Government, at a Ministerial level, there is (...) a very strong commitment to tackling poverty". Aeth ymlaen i ddweud: "we can drill down a bit deeper—and to make sure that, at an official level, there is the same commitment as at ministerial level."¹³

67. Dywedodd, er mai hi a oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am fynd i'r afael â thlodi, bod gan bob Gweinidog ar draws y Llywodraeth gyfrifoldeb o fewn ei bortffolio ei hun am drechu tlodi.¹⁴

68. Dywedodd y Gweinidog mai "dull ar y cyd" Llywodraeth Cymru o drechu tlodi oedd "yr un iawn", a dywedodd mai dyna farn Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant y DU hefyd.¹⁵

69. Wrth ymateb i'r awgrym na wnaed llawer o gynnydd o ran trechu tlodi er ei fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

"(...) we have to be very honest about what we can achieve. I think that we have to recognise that there are a lot of factors that are outside our control. I do believe that our policies and programmes are making a difference."¹⁶

70. Eglurodd y Gweinidog bod adroddiad cynnydd ar sail y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol, a bod yr adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, yn dangos bod y targedau a'r cerrig milltir yn lleihau tlodi. Wrth egluro hyn, dywedodd swyddog y Gweinidog fel a ganlyn "in some areas, we are making a difference, and in (...) other areas, we need to do more." Aeth yn ei blaen i ddweud:

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17

¹³ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

¹⁴ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

¹⁵ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

¹⁶ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

"(...) within the Tackling Poverty Action Plan, we've highlighted areas of action where we think we can make a difference (...) we are very closely monitoring the results of that work and what impact we're making there."¹⁷

71. Rhoddodd y Gweinidog fanylion am Fwrdd Gweithredu Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion o adrannau'r Llywodraeth sy'n atebol am y targedau a'r cerrig milltir yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Yn ôl y Gweinidog, mae'r Bwrdd yn gyfle i sicrhau bod polisïau, rhaglenni, dogfennau strategaeth ac adrannau yn cydweithio i leihau tlodi yng Nghymru mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynus.

72. Eglurodd y Gweinidog ymhellach, yn dilyn pryderon am berfformiad rhai adrannau, y byddai'n gwahodd Gweinidogion unigol i gyfarfodydd y Bwrdd i roi cyfrif am y cynnydd a wnaed tuag at gyrraedd y targedau o fewn eu portffolios perthnasol.

Ein barn ni

73. Rydyn ni'n pryderu'n fawr am ddiffyg cynnydd Llywodraeth Cymru o ran lleihau tlodi, yn enwedig o ystyried ei hymrwymiad hirdymor a'i buddsoddiad yn y mater hwn. Credwn mai'r rheswm am hyn, yn rhannol o leiaf, yw'r dull a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth hyd yma, sy'n canolbwyntio ar drin symptomau tlodi yn hytrach na'r achosion sylfaenol.

74. Er ein bod yn deall nad yw'r prif ysgogwyr ar gyfer lleihau tlodi, megis treth a budd-daliadau, wedi'u datganoli, credwn y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy o lawer o fewn cyfyngiadau'r setliad datganoli presennol. Croesawn ymrwymiad Llywodraeth y DU yn ddiweddar i ddatganoli'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a gobeithiwn y gallai fod yn ddull defnyddiol i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn gydlynus yn y ffordd y maen nhw'n trechu tlodi.

75. Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy atebol am leihau tlodi yng Nghymru. Mae'r trefniadau presennol yn fewnblyg, yn anghymesur ac yn aneffeithiol. Mae angen i'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector academiaidd a'r trydydd sector gyfrannu mwy at graffu a chreu polisïau. Nid yw lleihau tlodi yn rhywbeth y gellir ei gyflawni gan y llywodraeth ar ei phen ei hun.

¹⁷ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

76. Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy arloesol yn ei dull o leihau tlodi. Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni wedi cyfeirio at nifer o enghreifftiau o arferion da (cynllun HomeLife, Changing Lives, [prosiect 'Lle Dwfn' Tredegar](#), Cynghrair Tlodi yr Alban a chronfa tlodi dybryd y Groes Goch), a dylai Llywodraeth Cymru ystyried y rhain o ddifrif.

77. Hefyd, mae angen i Lywodraeth Cymru wrando ar brofiadau pobl o dlodi a llunio polisïau sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau i unigolion, gan ystyried anghenion, nodweddion ac amgylchiadau gwahanol.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu Cynghrair Lleihau Tlodi Cymru, a fydd yn cynnwys Gweinidogion a swyddogion (gan gynnwys llywodraeth leol), ynghyd â'r trydydd sector, a'r sectorau preifat ac academiaidd. Dylai hefyd gynnwys cynrychiolwyr pobl sy'n byw mewn tlodi. Dylai'r grŵp hwn fod yn sail i ddatblygu polisïau arloesol, gweithredu a chraffu'n barhaus ar lefelau tlodi yng Nghymru.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i Astudiaeth 'Lle Dwfn', Tredegar.

3. Deall tlodi

78. Yn ystod ein hymchwiliad, trafodwyd ai cyfrifoldeb y llywodraeth oedd sicrhau y bodlonir 'anghenion sylfaenol' pobl.

Diffiniad

79. Er mwyn cydnabod natur ddeinamig ac amrywiol tlodi, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddiffinio hyn yn ehangach na thlodi incwm cymharol.

80. Mae adroddiad diweddar Sefydliad Bevan, [Rethinking Poverty](#), yn dadlau bod llawer o fanteision i ail-fframio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi o ran anghenion sylfaenol:

“The advantages of basing public policies and interventions on these aspects of minimum needs are several. First, they have strong public support and move debate on from whether or not people on low incomes have 52-inch televisions to the very basics of life – a warm, damp-free home and enough to eat. Second, because they are the basics of life, their absence has severe consequences in terms of physical health and ability to work or learn. And third, and very importantly, they are mostly issues which are within the Welsh Government’s powers.”¹⁸

81. Dywedodd Sefydliad Bevan bod "problemau difrifol" wrth ddefnyddio'r mesur incwm safonol, a hynny am y rhesymau canlynol: "...it does not take account of need, and it does not take account of costs, and there are certainly people whose income is around the poverty threshold, but who have very much higher than normal costs—for example, disabled people have much higher costs, and people in rural areas often have very high costs, because of fuel costs or higher food costs.”¹⁹

82. Roedd rhywfaint o gefnogaeth yn y dystiolaeth o blaid defnyddio diffiniad Sefydliad Joseph Rowntree, ‘pan nad yw adnoddau person yn ddigon i ddiwallu ei anghenion sylfaenol, gan gynnwys ei allu i gymryd rhan yn gymdeithasol’, a allai gymryd i ystyriaeth faterion fel dyledion, ardaloedd gwledig a chostau byw uwch ar gyfer rhai pobl (pobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd).

¹⁸ Sefydliad Bevan (2014) [Rethinking poverty](#)

¹⁹ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

83. Cyfeiriodd yr Athro Jane Millar at astudiaethau Ewropeaidd ar dlodi ac allgáu cymdeithasol sy'n mesur tlodi ar sail tri pheth. Y tri pheth hynny yw trothwy incwm, amddifadedd materol a dwysedd gwaith. Mae'r olaf o'r rhain yn mesur a yw oedolion ar aelwyd yn gweithio llai nag 20% o'r hyn y gallent ei weithio mewn blwyddyn; mae felly'n cynnwys pethau fel tangyflogaeth, contractau dim oriau, gwaith rhan-amser a chontractau ansefydlog. Awgrymodd bod y cyfuniad hwn o fesurau yn bwerus iawn o ran tlodi. Fodd bynnag, aeth rhagddi i dynnu sylw at yr angen i beidio â cholli golwg ar y mesur incwm oherwydd ei fod yn fesur cryf o allu pobl i gymryd rhan.²⁰

84. Diben prosiect Safon Incwm Gofynnol (MIS) Sefydliad Joseph Rowntree yw diffinio incwm 'digonol'. Mae wedi ei seilio ar yr hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn ei feddwl yw digon o arian i fyw arno er mwyn byw mewn ffordd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

85. Mae ei [ymchwil yn 2014](#) wedi canfod nad yw'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae pobl yn dweud eu bod eu hangen ar gyfer y safon 'ddigonol' hon o fyw wedi newid rhyw lawer ers yr astudiaeth MIS gyntaf yn 2008. Fodd bynnag, mae gallu pobl i'w fforddio wedi dirywio. Mae'r cynnydd mewn cyflogau wedi bod yn araf, mae'r newidiadau i gredydau treth a budd-daliadau wedi effeithio ar incwm aelwydydd, ac mae cost hanfodion wedi codi 28% ers 2008 – yn gyflymach na'r chwyddiant cyffredinol. Trafodir y tueddiadau hyn yn fanylach mewn [astudiaeth](#) ar wahân.

86. Mae'r ffigurau a gynhyrchir gan MIS yn cael eu defnyddio i gyfrifo'r [cyflog byw](#) y tu allan i Lundain ac i asesu effaith polisi cyhoeddus ar safonau byw pobl. Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio i archwilio i ba raddau y bydd [credyd cynhwysol](#) yn helpu pobl i gyrraedd incwm digonol.

Tlodi o ran bwyd

87. Cafwyd beirniadaeth gan Ymddiriedolaeth Trussell nad oedd sôn yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi presennol am dlodi bwyd nac am y cynnydd enfawr yn y banciau bwyd a'r defnydd ohonynt ledled Cymru ar adeg pan oedd y nifer sy'n defnyddio'r banciau bwyd wedi mwy na dyblu. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth, roedd hyn yn gamgymeriad amlwg y gellid bod wedi'i osgoi.²¹

88. Mynegodd Ymddiriedolaeth Trussell bryder am y canlynol: “the dramatic growth in the number of people in local communities who find themselves in crisis and the increasing frequency with which this occurs”. Dywedodd

²⁰ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 12

“between April 2013 and March 2014 [the Trust] provided emergency food aid to 79,919 individuals in Wales, which was a 124% increase on the previous year (35,650)”. Roedd hanner yr atgyfeiriadau i fanciau bwyd yn 2013-14 oherwydd oedi cyn cael budd-dal, neu oherwydd bod y budd-dal wedi newid.²²

89. Yn ôl Ymddiriedolaeth Trussell “static incomes, rising living costs, low pay, underemployment and problems with welfare are significant drivers of the increased demand experienced by foodbanks in the last year.”²³

Tlodi tanwydd

90. Roedd tystiolaeth National Energy Action (NEA) Cymru yn dangos bod bron i 1 o bob 3 (30%) o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2012, sy'n cyfateb i 386,000 o gartrefi. O'r rheini, tybir bod 328,000 yn aelwydydd agored i niwed (sy'n cynnwys plentyn, person hŷn, neu berson anabl neu berson â salwch tymor hir).²⁴

91. Clywsom gan ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad Bevan, y dylai tlodi tanwydd fod yn fwy amlwg yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, oherwydd ei fod yn un o'r anghenion dynol sylfaenol i gael cartref cynnes. Hefyd, soniodd Sefydliad Bevan am effaith gymharol fach rhaglen Nyth Llywodraeth Cymru o gymharu â maint y broblem. Aeth ymlaen i ddweud:

“As with income poverty, we need to understand more the circumstances of people who are living in homes that are cold, or spending too much on their fuel, and how we can address them, and particularly in terms of people in hard-to-treat homes, or in privately rented homes, what public interventions can work.”²⁵

92. Adleisiwyd hyn gan NEA Cymru, a ddywedodd: “the TPAP makes scant reference to fuel poverty, allocating a mere 3 bullet points to the topic which reiterate government statements on Nest and Arbed rather than integrating these schemes with wider work to tackle poverty.”²⁶ Aeth ymlaen i ddweud:

“The 2010 Fuel Poverty Strategy is the Welsh Government’s strategy to tackle fuel poverty in Wales. However, it is now out of date. It contains targets which are no longer achievable; it attempts to integrate with strategies and initiatives which have been superseded;

²² Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 12

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 12

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 01

²⁵ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 01

it pre-dates the Tackling Poverty Action Plan and other relevant strategies; and it commits to reporting to the Ministerial Advisory Group on Fuel Poverty, which was disbanded in October 2011 (making Wales the only UK nation without a group of this kind).²⁷

93. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Age Cymru yn 2014, biliau ynni sy'n peri'r pryder mwyaf i bobl hŷ n. Dywedodd: "57% of older people were worried about how to afford gas and electricity bills, whilst significant numbers were also concerned about water and Council Tax bills." Soniodd fod traean yr aelwydydd o bobl sydd wedi ymddeol wedi cwtagi ar eu gwariant, fel bwyd, gwres, gweithgareddau cymdeithasol neu nwyddau.²⁸

94. Amlygodd Partneriaeth Effaith Diwygio Lles Gweithredol Ynys Môn bod tlodi tanwydd hefyd yn fater penodol i gartrefi gwledig sy'n aml yn defnyddio tanwydd heblaw nwy i wresogi eu cartrefi.

95. Mae tlodi tanwydd yn un o flaenoriaethau allweddol Cyngor ar Bopeth, a beirniadodd y data a gyhoeddwyd gan gynlluniau tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, fel Nyth, sydd yn anghyson bob blwyddyn.

96. Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi [ysgrifennu](#) at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ynghylch ei [ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd](#), yn gofyn pa ystyriaeth a roddodd Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Strategaeth Tlodi Tanwydd. [Ymateb y Gweinidog](#) oedd:

"Cyhoeddwyd y Strategaeth Tlodi Tanwydd cyn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ond rydym wedi sicrhau bod ein camau gweithredu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun a bod tlodi tanwydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr â champau gweithredu ehangach i drechu tlodi.

"Er nad oes gennyf gynlluniau ar hyn o bryd i adolygu'r Strategaeth Tlodi Tanwydd, byddaf yn cadw hyn dan ystyriaeth."

Tai

97. Dywedodd Tai Pawb wrthym y gall cael cartref fod yn allweddol i sefydlogi bywydau, ac y gall ddod â manteision sy'n amrywio o well iechyd i gyfleoedd i gael addysg a chyflogaeth. Dywedodd: "poverty, low income and destitution narrows the housing options available to people making it harder

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 01

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 05

for people to access suitable and affordable housing and the potential associated benefits”.²⁹

98. Aeth ymlaen i ddweud bod tai yn broblem arbennig i bobl ifanc ar incwm isel, gan eu bod yn wynebu “the multiple challenge of the shortage of suitable affordable housing, restrictions related to shared accommodation rates, disproportionately being affected by sanctions related to job seekers allowance and limited availability of stable employment opportunities. These factors also makes it harder to find housing solutions and move-on accommodation for young people when they are in temporary accommodation or have specific needs such as the need for an adapted property.”³⁰

99. Clywsom dystiolaeth y byddai gwneud nwyddau a gwasanaethau craidd yn rhatach i bobl mewn tlodi dybryd yn gostwng y gwariant cyhoeddus ar effeithiau tlodi yn y tymor hwy. Yn ôl adroddiad *Rethinking Poverty* Sefydliad Bevan: “public bodies should do their utmost to reduce costs to low income households including making payment by instalments easy.” Byddai hyn hefyd yn mynd peth o'r ffordd i leddfu'r 'premiwm tlodi'. Mae Sefydliad Joseph Rowntree wedi amcangyfrif bod hwn yn 5%.³¹

100. Roedd yr ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru feddwl yn fwy arloesol am sut y gall ostwng y costau sylfaenol i bobl ar incwm isel, ac fel enghraifft o hyn cyfeiriwyd at y prosiect [Homelife](#) yn Newcastle, sy'n darparu llety fforddiadwy, hirdymor ar gyfer unrhyw un sy'n gymwys i gael budd-dal tai.

101. Soniodd Ymddiriedolaeth Trussell bod Llywodraeth yr Alban wedi cael gwared ar y cap ar y swm y caiff awdurdodau lleol ei ddyrannu i Daliadau Tai Dewisol, sy'n daliadau tymor byr gan awdurdodau lleol i helpu i dalu rhai costau tai. Nid yw'r pŵer hwn wedi'i ddatganoli i Gymru ar hyn o bryd, ond byddai'r Ymddiriedolaeth o blaid datganoli pwerau tebyg lle byddai hynny'n helpu ei chleientiaid a lliniaru rhai o effeithiau'r broses diwygio lles, ac a allai helpu i fynd i'r afael â'r problemau lleol sy'n gorfodi pobl i geisio cymorth gan fanciau bwyd.³²

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 08

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 08

³¹ Cofnod y Trafodion, 13 Tachedd 2014

³² Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2014

Tystiolaeth gan y Gweinidog

102. Yn ei hymateb i dystiolaeth a oedd yn galw am ddiffinio tlodi'n fwy eang na'r mesur incwm safonol, dywedodd y Gweinidog:

“I think income is probably the most important constituent of poverty, but obviously it’s not the only one... I think that most Governments use that as a measure, but of course it isn’t solely about household income.

“Poverty is very multifaceted; that’s why we have to have the range of targets, that’s why we have to have the range of policies. I think that looking at indicators other than income is important, and it’s generally in those other areas where we do have the levers to make a difference. ... we haven’t got all the levers. We’ve got the Welsh index of multiple deprivation, and that focuses on many areas, not just income.”³³

103. O ran tlodi bwyd, cydnabu'r Gweinidog nad oedd cyfeiriad at hyn yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi newydd. Eglurodd nad oedd tlodi bwyd yn fater mor amlwg pan gafodd y cynllun ei gyhoeddi, ac mai dyna pam na chafodd ei gynnwys. Dywedodd wrthym nad dogfen sefydlog yw'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, ac y gellid ei ddiweddarau i adlewyrchu hyn. Dywedodd hefyd bod swyddogion yn cynnal proses fapio a oedd yn ymwneud â thlodi bwyd, ar y cyd â hyrwyddwyr gwrthdlodi awdurdodau lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

104. Dadleuodd y Gweinidog yn erbyn yr awgrym nad yw tlodi tanwydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Dywedodd fod y Cynllun yn cynnwys targedau ar gyfer tai ychwanegol, aildddefnyddio tai gwag, a nifer y cartrefi sydd wedi'u gwella o dan gynlluniau Arbed a Nyth.

Ein barn ni

105. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael dealltwriaeth fwy trwyadl o'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru. Dylai fabwysiadu diffiniad clir o dlodi, yn seiliedig ar anghenion ac adnoddau, yn hytrach na'r mesur safonol sy'n seiliedig ar incwm. Dylai dull y llywodraeth o drechu tlodi gael ei lunio ar sail mynd i'r afael ag anghenion dynol sylfaenol pob person – mae hyn yn golygu bwyd, cysgod a thanwydd. Hefyd, dylai'r diffiniad gyfeirio at yr ymchwil ynghylch 'safon incwm gofynnol' Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n

³³ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

seiliedig ar yr hyn y mae aelodau o'r cyhoedd yn ei feddwl yw digon o arian i fyw arno er mwyn byw mewn ffordd sy'n dderbyniol yn gymdeithasol.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu diffiniad clir o tlodi. Awgrymwn fod y diffiniad yn seiliedig ar fesur a yw adnoddau person yn ddigonol i ddiwallu ei anghenion dynol sylfaenol, ac i gael safon byw derbyniol sy'n ei alluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad yn ei strategaeth trechu tlodi i sicrhau bod gan bob person yng Nghymru fwyd, lloches a chynhesrwydd. Dylai hyn gynnwys dadansoddiadau manwl a thargedau ar gyfer tlodi bwyd, tlodi tanwydd a digartrefedd.

4. Pwy sy'n byw mewn tlodi?

106. Dywedodd nifer o ymatebwyr wrthym fod prinder data am y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, dwyster y tlodi (pa mor ddifrifol ydyw a pha mor hir y mae'n para), a'i effaith. Drwy fesur dwyster y tlodi, clywsom y gellid rhoi'r adnoddau i'r bobl mwyaf anghenus, yn hytrach na rhoi cymorth i'r rhai sydd drwch blewyn o dan y llinell dlodi.

107. Dywedodd yr Athro Jane Millar wrthym y gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i lenwi'r bylchau presennol yn y data er mwyn targedu adnoddau'n well ar gyfer y grwpiau o bobl mwyaf anghenus. Awgrymodd y gellid mynd ati i gynyddu maint y sampl o arolygon sydd ar gael eisoes, a bod gwaith tebyg wedi'i wneud yng Ngogledd Iwerddon. Awgrymodd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r data presennol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau, fel data o fanciau bwyd.³⁴ Nododd Ymddiriedolaeth Trussell hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gasglu data am wasanaethau er mwyn llywio polisi.³⁵

108. Dywedodd Sefydliad Bevan, oherwydd nad oedd llawer o ddata cyffredinol ar gael am dlodi yng Nghymru, bod problem go iawn o ran deall ble rydyn ni arni a meincnodi, a bod y llunwyr polisi, felly, yn gweithio yn y tywyllwch:

“The evidence on income poverty in Wales is really weak: we have to combine three years’ worth of evidence to get any sort of meaningful numbers, and we can never ever break down below the headline figures of older people, working-age people and children. There are no data on income poverty below an all-Wales level, so we have no idea how things are happening or developing in different parts of Wales.”³⁶

109. Roedd Chwarae Teg, Cyngor ar Bopeth, Plant yng Nghymru ac Age Cymru yn cytuno â hyn.

Agweddau'r cyhoedd tuag at dlodi

110. Clywsom hefyd dystiolaeth am agweddau'r cyhoedd a'r stigma sy'n gysylltiedig â bod mewn tlodi. Soniodd Sefydliad Bevan am [ymchwil ddiweddar](#) gan IPSOS Mori, a ganfu fod agweddau'r cyhoedd tuag at dlodi yn

³⁴ Cofnod y Trafodion , 3 Rhagfyr 2014

³⁵ Cofnod y Trafodion, 19 Tachwedd 2014

³⁶ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

newid ac er bod diffyg cydymdeimlad weithiau tuag at bobl mewn tlodi, roedd y rhan fwyaf o'r cyhoedd ym Mhrydain yn deall y syniad o "beidio â bod â digon o arian at fyw".³⁷

111. Awgrymodd rhai ymatebwyr mai dull posibl o wella dealltwriaeth rhwng llunwyr polisi, cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yw drwy gomisiynau 'gwir am dlodi' (gan nodi enghreifftiau yn yr Alban a Leeds), lle mae pobl ar incwm isel yn rhoi tystiolaeth i helpu eraill i ddeall beth sy'n gwneud gwahaniaeth.

112. Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree mai un o'r pethau sy'n aml ar goll o bob un o'r dadleuon hyn yw llais y bobl yr ydyn ni'n sôn amdany'n nhw. Dywedodd "how you give a voice to the people and learn from their lived experience is one issue that I think (...) does need to be addressed".³⁸ Cytunodd Sefydliad Bevan gyda'r pwynt hwn.³⁹

Demograffeg

113. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod angen i'r camau a gymerir gan Lywodraeth Cymru i drechu tlodi gydnabod nad un grŵp o'r un math yw pobl mewn tlodi, a bod profiad pobl o dlodi'n gallu bod yn wahanol iawn yn dibynnu ar eu demograffeg, yn ogystal â'r ardal y maent yn byw ynddi.

114. Clywsom fod Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi mynd ati i drechu tlodi drwy dargedu ardaloedd penodol, yn hytrach na grwpiau penodol o bobl. Ar y pwynt hwn, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn awyddus i weld demograffeg yn cael ei ystyried ochr yn ochr â daearyddiaeth yn strwythur rhaglenni trechu tlodi Llywodraeth Cymru:

"The Equality and Human Rights Commission has been very keen to try to focus on who the people are who are living in poverty and what their composition is, and to look at that alongside the poorest places in Wales, because a lot of the focus of the Welsh Government over the years has been on the most deprived areas. Obviously, there is benefit in that, but there is also the correlation that poor people do not only live in poor areas."⁴⁰

115. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn cydnabod y mater hwn, a dywedodd: "there are concerns that Communities First 'boundaries' may be

³⁷ Cofnod y Trafodion 13 Tachwedd 2014

³⁸ Cofnod y Trafodion 13 Tachwedd 2014

³⁹ Cofnod y Trafodion 13 Tachwedd 2014

⁴⁰ Cofnod y Trafodion 13 Tachwedd 2014

seen to restrict the availability of valuable services to vulnerable people who live outside Communities First designated areas, which could in turn be viewed as divisive and marginalising people in a postcode lottery.”⁴¹

116. Cyfeiriodd Oxfam Cymru at geiswyr lloches fel enghraifft dda o'r modd y mae grwpiau penodol yn aml y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gan nad oes ganddyn nhw reolaeth dros eu llety, sydd yn aml ymhell oddi wrth y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.⁴²

117. Nid yw hyn yn golygu nad oes gwerth mewn dulliau o drechu tlodi sy'n seiliedig ar le, ond y dylent gael eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau demograffig ac economaidd. Mae [astudiaeth Lle Dwfn Tredegar](#) yn enghraifft o ffordd arloesol o ddeall y ffactorau daearyddol, economaidd a demograffig sy'n gysylltiedig â thlodi, ochr yn ochr ag iechyd, addysg, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai a diwylliant. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar un lleoliad penodol i wneud gwerthusiad manwl, cyfannol a thrwyadl, ond mae ynddo oblygiadau i bolisi dros Gymru gyfan hefyd.

118. Cawsom dystiolaeth gan Chwarae Teg, Achub y Plant, Anabledd Cymru, Race Council Cymru, Oxfam Cymru a llawer o sefydliadau eraill bod plant, teuluoedd un rhiant, menywod, pobl anabl, pobl o gefndir ethnig nad ydynt yn wyn, ceiswyr lloches a ffoaduriaid oll yn wynebu mwy o risg o dlodi na gweddill y boblogaeth.

119. Rhoddodd Oxfam Cymru grynodedb o hyn, gan ddweud bod Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi presennol Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod 'pobl dlawd' yn grŵp sefydlog ar wahân i'r gweddill ohonon 'ni'. Cyflwr yw tlodi y mae pobl yn mynd iddo ac allan ohono, gyda'r risg o dlodi yn newid yn ystod eu bywydau. Dywedodd fod hyn yn pwysleisio bod angen dull deinamig a hyblyg o weithredu, ac ymyriadau addas ar gyfer pob cam o fywyd person.⁴³

120. Yn eu tystiolaeth, esboniodd Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree yn fras pam mae demograffeg yn ffactor pwysig mewn tlodi:

“The relationship between protected characteristics and poverty is complex. Disadvantage in the labour market (notably lower employment rates, fewer hours of work and a concentration in low-paid occupations) is a key factor in the higher risk of poverty for

⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 19

⁴² Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17

women over the life course, disabled people, young people, minority ethnic groups and some religious groups.

Protected characteristics also shape the attitudes and resources of individuals (for example whether an individual wants to work), the composition of social networks (which can help access to and progression in work), and affect how individuals are treated by others (such as discrimination)."⁴⁴

121. Soniodd Sefydliad Bevan hefyd: "as we come to know and understand more about the nature and dynamics of poverty and the very varied characteristics of people who live on a low income, it raises ongoing challenges for public policy in trying to keep up with the increase in knowledge."⁴⁵

122. Hefyd, roedd natur gymhleth y berthynas rhwng tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol i'w gweld yn gryf yn y dystiolaeth. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi enghreifftiau o sut mae gwahanol grwpiau o bobl yn profi tlodi mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar eu nodweddion yn hytrach na dim ond eu lleoliad.

Menywod

123. Yn ôl Chwarae Teg, mae menywod yn wynebu risg uwch o dlodi na dynion, a hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi na dynion. Dywedodd bod y "... risgiau, achosion a phrofiadau o dlodi yn wahanol ar gyfer dynion a menywod, ac mae safle'r fenyw yn y cartref a'r gweithle yn ffactorau allweddol wrth bennu'r gwahaniaethau hyn".

124. Dywedodd Chwarae Teg bod gormod o fenywod yn gwneud y mathau o waith sy'n gysylltiedig â chyfraddau uwch o dlodi, yn enwedig tlodi mewn gwaith, yn cynnwys "swyddi cyflog isel, rhan-amser, ansicr neu dros dro".

125. Cododd Gwasanaeth Newid Bywydau Menywod, *Changing Lives*, bryder penodol am effaith tlodi ar fenywod yn y System Cyfiawnder Troseddol. Dywedodd bod dros hanner y rhai a ddefnyddiai ei wasanaeth yn wynebu tlodi neu gyni enbyd. Roedd y rhesymau am hyn yn cynnwys effaith diwygio lles, cam-drin domestig a cham-fanteisio ariannol, diffyg mecanweithiau cymorth priodol ar gyfer menywod sy'n dod allan o'r carchar, a chamddefnyddio sylweddau.

⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 03

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

126. Esboniodd Cymorth i Fenywod Cymru y gall tlodi waethygu'r cam-drin a chadw menywod yn gaeth mewn perthynas dreisgar. Esboniodd hefyd y gall effeithiau hirdymor rheolaeth ariannol waethygu cyflwr tlodi menywod yn ddybryd, a bod y rhai sy'n dianc rhag cam-drin yn aml, felly, yn parhau i ddioddef tlodi. Yn ogystal, os oes plant yn y teulu, dywedodd bod y risg o dlodi yn uwch oherwydd mai un rhiant sydd yn y teulu.

Teuluoedd un rhiant

127. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr bod rhieni unigol, sy'n fenywod yn bennaf, yn grŵp sydd mewn perygl gwaeth na'i gilydd o dlodi.

128. Yn ôl yr ymatebwyr y prif bethau sy'n cyfrannu at y risg o dlodi ymhlith y grŵp hwn yw'r angen i gydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofalu, sy'n effeithio ar y gallu i weithio'n llawn amser; prinder gofal plant fforddiadwy; a newidiadau i'r systemau treth a budd-daliadau.

Pobl hŷ n

129. Er bod tlodi ymhlith pensïynwyr wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, clywsom fod nifer sylweddol o bobl hŷ n yn byw mewn tlodi difrifol a hirdymor, yn enwedig menywod sengl dros 80 mlwydd oed. Tynnodd y Comisiynydd Pobl Hŷ n sylw at y 50,000 o bobl hŷ n sy'n byw mewn tlodi dybryd yng Nghymru.⁴⁶

130. Yn ôl Age Cymru: "once retired, the majority of older people have fixed incomes and are heavily reliant on annual increases to the State Pension or other benefits, or the interest they receive from (usually minor) savings or investments. This can mean that older households are less resilient to substantial bills, costs or price increases."⁴⁷

Pobl anabl

131. Dywedodd sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl bod tua thri chwarter y bobl anabl yng Nghymru heb waith, a bod y rhai sydd â gwaith yn ennill cyflogau isel iawn.

132. Yn ôl yr ymatebwyr, mae problemau penodol yn wynebu pobl anabl sy'n cynnwys costau byw uwch, er enghraifft yr angen i gael offer arbenigol, a rhwystrau o ran gwaith a thrafnidiaeth. Roedd yn amlwg o'r dystiolaeth a

⁴⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 20 a PIW 05

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 05

gafwyd nad yw rhaglenni cyffredinol i fynd i'r afael â thlodi yn addas i gwrdd ag anghenion pobl anabl, sy'n aml yn anghenion cymhleth.

133. Dywedodd Anabledd Cymru y gall tlodi effeithio'n ddifrifol ar bobl anabl ac y gall, mewn rhai achosion, arwain at ddirywiad yn iechyd a lles unigolion. Gall hefyd achosi ynysu cymdeithasol a chyfyngu ar y cyfleoedd cymdeithasol, addysgol ac economaidd.

Plant

134. Soniodd Achub y Plant fod un plentyn ym mhob tri yn byw mewn tlodi yng Nghymru, a bod plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu mewn tlodi yn fwy tebygol o gael bywyd â chanlyniadau iechyd gwael a bod ar gyflog isel, yn ddi-waith, ac yn ddibynnol ar y system lesiant.

135. Yn ôl y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru: "children in the most deprived areas of Wales are almost twice as likely to die in a given year as those from the least deprived areas". Aeth rhagddo i ddweud:

"Poverty and inequality are linked to poor health outcomes during childhood, and in the most tragic of cases, it can be linked to the premature death of a child or young person."⁴⁸

136. Cyfeiriodd ymatebwyr, gan gynnwys Estyn ac Achub y Plant, at y bwlch rhwng cyflawniadau plant difreintiedig o gymharu â phlant breintiedig, sydd yn sylweddol mor gynnar â thair oed. Erbyn cyfnod TGAU mae bwlch o 34% rhwng cyrhaeddiad plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel a'u cyd-ddisgyblion mwy cefnog.⁴⁹

Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

137. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at sefyllfa unigryw ffoaduriaid a cheiswyr lloches, o ran eu bod yn ddibynnol ar gefnogaeth Llywodraeth y DU o ran tai, ond hefyd ar Lywodraeth Cymru am wasanaethau iechyd a chymorth cyflogaeth.

138. Dywedodd Tai Pawb fod mwy o risg o lawer y bydd eraill yn camfanteisio ar geiswyr lloches aflwyddiannus am eu bod mewn tlodi dybryd:

"Lack of recourse to public funds, vulnerable immigration status, having mental ill health or a learning disability and falling within

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 04

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 22

groups traditionally given limited priority within services (e.g. single men) can increase the likelihood of destitution and potential vulnerability that can lead to exploitation.”⁵⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

139. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y prinder data am bobl sy'n byw mewn tldi. Dywedodd wrthym “I don't consider there's a need for (...) a really big, extensive mapping exercise. I think that would be a huge undertaking. I think it would take a huge amount of resources”. Cyfeiriodd at y gwaith mapio sy'n cael ei wneud ynghylch tldi bwyd.⁵¹

140. Cydnabu'r Gweinidog bod angen i Lywodraeth Cymru dalu mwy o sylw i gasglu data. Dywedodd ei bod yn bwriadu edrych ar ganlyniadau'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth y DU o ran casglu data am dlodi.⁵²

141. Mewn ymateb i'r honiad bod rhaglenni trechu tldi yn rhoi gormod o sylw i ddaearyddiaeth yn hytrach na demograffeg, awgrymodd y Gweinidog nad oedd pob un o'r rhaglenni trechu tldi yn ddaearyddol, a dywedodd ei fod yn rhywbeth y mae'n rhaid ei ystyried. Dywedodd hefyd: “There are a few things that I need to have reassurance about; geographical areas is one of them.”⁵³

142. Rhoddodd y Gweinidog enghreifftiau o gyllid a rhaglenni a anelwyd at gefnogi pobl â nodweddion gwarchoddedig gyda golwg ar geisio lleihau eu risg o fyw mewn tldi a lleihau anghydraddoldeb. Roedd y rheini'n cynnwys y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, y Grant Digartrefedd, y Grant Datblygu Polisi Tai, a Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi.

143. Gofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch gwrando ar brofiadau pobl mewn tldi, gan roi enghreifftiau o'r comisiynau 'gwir am dlodi' yn yr Alban a Leeds. Dywedodd wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i fudiad Plant yng Nghymru i wneud gwaith tebyg i'r comisiwn tldi, a bod y gwaith y mae'n ei wneud gyda'r Comisiynydd Plant ynghylch tldi, o bosibl, yn debyg iawn.⁵⁴

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 08

⁵¹ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

⁵² *ibid.*

⁵³ *ibid.*

⁵⁴ *ibid.*

144. Cydnabu'r Gweinidog fod y comisiynau 'gwir am dlodi' yn darparu gwasanaeth gwerthfawr. Fodd bynnag, dywedodd "I think we've got, in Wales, a variety of mechanisms to ensure that people are engaged with policy makers". Ychwanegodd:

"We collected case studies for our tackling poverty action plan annual report from right across Wales, and that demonstrated lived experiences of poverty and how that was being tackled through employment, through education, through training, and through a change of lifestyle. Communities First also collects case studies."⁵⁵

Ein barn ni

145. Nid un grŵp penodol yw pobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru, ac mae angen i Lywodraeth Cymru wella'r data sydd ganddi am dlodi i adlewyrchu hyn.

146. Oherwydd fod prinder data, clywsom fod llunwyr polisi ar hyn o bryd yn 'gweithio yn y tywyllwch'. Mae hyn yn annerbyniol. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i ddatblygu sylfaen dystiolaeth gref sy'n nodi'n union pwy sydd mewn tlodi, ac sy'n disgrifio'n glir ddwyter a dyfalbarhad tlodi yng Nghymru. Dylai hyn fynd law yn llaw â gwelliannau dramatig i'r trefniadau ar gyfer monitro rhaglenni presennol sy'n gallu dangos cynnydd pendant o ran lleihau tlodi, neu ddiffyg hynny. Fel arall, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau: polisi yn cael ei ddatblygu heb dystiolaeth; perfformiad yn cael ei fonitro heb ddata.

Argymhellwn fod y Gweinidog yn comisiynu ymchwil sy'n gwella'n sylweddol ansawdd, cwmpas a graddau'r data am dlodi yng Nghymru. Dylai'r ymchwil hon sefydlu pa grwpiau o bobl yng Nghymru sy'n debygol o fod yn byw'n anghymesur mewn tlodi, a nodi'r gyfres o ymyriadau sy'n gweithio orau i wahanol bobl, yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach na si.

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

5. Cynyddu incwm y cartref

Rôl polisi economaidd o ran mynd i'r afael â thlodi

147. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr y cyswllt hanfodol rhwng polisi economaidd a threchu tlodi. Ar y mater hwn, awgrymodd Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree nad oedd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn gweithio gystal gyda strategaethau economaidd a'r farchnad lafur. Yn yn eu barn hwy roedd hyn yn broblem sylweddol, yn enwedig yng ngoleuni canfyddiadau adolygiad diweddar o strategaethau gwrthdlodi rhyngwladol, a bwysleisiodd bod angen i strategaethau gael eu datblygu ochr yn ochr â pholisi economaidd.⁵⁶

148. Dyfynnodd Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree o'r gwerthusiad diweddar o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tlodi plant, nad oedd "wedi gweld unrhyw dystiolaeth o gydlyn sylweddol rhwng rhaglenni sy'n ceisio helpu pobl i gael gwaith a rhaglenni sy'n ceisio creu swyddi".⁵⁷ Aethant ymlaen i ddweud:

"Not only is an effective relationship important for "helping people into work" (...) no country has managed to reduce poverty without increasing employment – it is also critical to tackling the growing problem of in-work poverty. Given that the lack of decent work remains by far the most important factor in Wales's relatively high levels of poverty this is a very significant gap."⁵⁸

149. Mewn perthynas â'r uchod, dywedodd Oxfam Cymru: "while it is true that education is vital to help prevent aspects of poverty and that people can be helped to be more work ready, the fundamental problem is the chronic lack of decent jobs in Wales". Aeth rhagddo i ddweud:

"The scale of the problem calls for a bold long-term re-alignment of the economy that joins up all aspects of Welsh Government policy."⁵⁹

Y farchnad lafur

150. Awgrymodd Sefydliad Bevan bod y newidiadau strwythurol diweddar i'r farchnad lafur, gan gynnwys y cynnydd mewn gwaith rhan-amser, contractau

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 03

⁵⁷ Llywodraeth Cymru (2014) [Gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Cymru - Adroddiad Terfynol](#)

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 03

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17

dim oriau, a gwaith dros dro, yn golygu nad yw gwaith bellach yn ffordd syml allan o dlodi. Mae'n awgrymu bod y newidiadau hyn wedi ei gwneud yn anoddach i'r Llywodraeth ymyrryd i effeithio ar dlodi ar gyfer pobl o oedran gweithio.

151. Dywedodd Ymddiriedolaeth Trussell bod cyflogau isel a thangyflogaeth ymhlith y rhesymau dros atgyfeirio pobl at fanciau bwyd. Eglurodd “insecure work and low-income, zero-hour contracts in particular, make people particularly vulnerable to a financial crisis”.⁶⁰

152. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Sefydliad Bevan, bod angen strategaethau wedi'u hanelu at ddatblygu cyfleoedd ar ben isaf y farchnad lafur, er enghraifft y sectorau gofal a manwerthu, sydd fwyaf cysylltiedig â thlodi mewn gwaith.⁶¹ Aeth Sefydliad Bevan rhagddo i awgrymu bod angen gwella'r berthynas â'r sector preifat i ddeall y pen hwn o'r farchnad lafur.⁶²

153. Wrth roi sylwadau ar yr awgrym y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddatblygu pen isaf y farchnad lafur, pwysleisiodd yr Athro Jane Millar ei bod yn bwysig creu swyddi o safon. Awgrymodd y byddai creu swyddi ar gyflog isel y byddai angen eu sybsideiddio gan fudd-daliadau yn gwneud dim ond yn gwthio'r broblem ymlaen.

154. Yn gysylltiedig â'r uchod, o ran y berthynas rhwng polisi economaidd Llywodraeth Cymru a'i dull o drechu tlodi ac anghydraddoldeb, dywedodd Chwarae Teg:

“(...) we know that the [Welsh Government's] priority sectors on the whole are those in which women are under-represented or, if they are not, they are low paid - tourism, for example.”⁶³

155. Aeth Chwarae Teg ymlaen i esbonio ei fod yn canolbwyntio ei ymdrechion ar gefnogi'r Llywodraeth i gynyddu cynrychiolaeth menywod o fewn y sectorau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM), er mwyn ceisio cael effaith gadarnhaol yn y tymor hwy.

156. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod angen datblygu marchnad lafur Gymreig sy'n mynd ati'n ymarferol i drechu tlodi. Roedd yr awgrymiadau am yr hyn y gellid ei gyflawni o dan y setliad datganoli presennol yn cynnwys:

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 12

⁶¹ Cofnod y Trafodion 13 Tachwedd 2014

⁶² *ibid.*

⁶³ Cofnod y Trafodion 19 Tachwedd 2014

- ymgysylltu â'r sector preifat i wella ansawdd swyddi yng Nghymru drwy gyflogau, contractau diogel a pheccynnau cyflogaeth deche, fel gofal plant ac oriau hyblyg;⁶⁴
- defnyddio polisi caffael cyhoeddus i sicrhau bod cyflogwyr yn darparu swyddi o ansawdd, sy'n talu'n dda ac sy'n ddiogel, i bobl yng Nghymru, yn enwedig yn y sector sgiliau isel fel gofal;⁶⁵
- amodau grant ar gyfer busnesau yng Nghymru i sicrhau bod swyddi a grëwyd gyda chymorth arian cyhoeddus yn talu digon at fyw.⁶⁶

Helpu pobl i gael gwaith

157. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at faterion yn ymwneud â'r angen i ddeall pwy sydd mewn tloedi ac i deilwra atebion ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl (fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol).

158. Pwysleisiodd Sefydliad Bevan ei bod yn bwysig darparu cymorth priodol o ansawdd da i helpu pobl i gael gwaith, yn enwedig y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd ac sydd ymhell o'r farchnad lafur, er enghraifft cyn-droseddwyr neu bobl a arferai gamdefnyddio sylweddau.⁶⁷

159. Mynegodd Leonard Cheshire bryder bod cefnogaeth bresennol y Llywodraeth i helpu pobl anabl i gael gwaith yn aneffeithiol iawn. Galwodd ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio'i buddsoddiad ar gynlluniau sydd â hanes profedig o lwyddiant o ran helpu pobl anabl i gael gwaith.⁶⁸

160. Yn yr un modd, mynegodd Anabledd Cymru bryder bod rhaglenni cyffredinol sydd â'r nod o helpu pobl i gael gwaith, fel Rhaglen Waith Llywodraeth y DU, "tend to work best with people who are relatively close to the workforce (...) but for a lot of disabled people who have been out of work for many years, they do not really work."⁶⁹

161. Pwysleisiodd Leonard Cheshire ac Anabledd Cymru bod y mentrau llwyddiannus sy'n helpu pobl anabl i gael gwaith yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn galw am lefel uchel o arbenigedd. Ymhlith y rhain mae cynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Shaw, Elite Supported Employment Agency a Vision 21. Yn ogystal, soniodd Anabledd Cymru fod y cynllun Grant Cymorth i Gyflogwyr, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17 a Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 17

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 29

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

ôl i ffatrioedd Remploy gau, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r cynllun ac awgrymodd y dylid annog mentrau pellach yn seiliedig ar y dull hwn o weithredu.

Rhaglen Waith Llywodraeth y DU

162. Clywsom gan nifer o ymatebwyr am y manteision posibl pe byddai Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn cael ei datganoli.

163. Roedd Sefydliad Bevan yn frwd o blaid hyn a dywedodd nad oes digon o gysylltiad ar hyn o bryd rhwng y farchnad lafur leol a'r cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sydd ar gael drwy'r Rhaglen. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Oxfam Cymru a'r Athro Jane Millar, a eglurodd bod rhaglenni'r farchnad lafur ar eu mwyaf effeithiol pan fo ganddynt ddealltwriaeth leol, a phan fyddant wedi'u gwreiddio'n lleol.⁷⁰

164. Mynegodd Oxfam Cymru bryder bod y Rhaglen Waith yn llai effeithiol ar gyfer pobl a allai fod ymhellach o'r farchnad lafur a all fod ag anghenion cymhleth, fel problemau iechyd meddwl, neu broblemau camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.⁷¹ Awgrymodd bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r bobl hynny sydd hawsaf i weithio gyda nhw oherwydd bod y Rhaglen yn gweithredu ar sail talu-am-ganlyniadau.⁷²

165. Roedd Leonard Cheshire ac Anabledd Cymru ill dau yn pryderu bod natur generig Rhaglen Waith Llywodraeth y DU yn golygu ei bod yn anaddas i bobl anabl a allai fod bellaf oddi wrth y farchnad lafur. Roedden nhw'n gryf o blaid dull mwy personol o helpu pobl anabl i gael gwaith.

166. Cyfeiriodd Oxfam Cymru a Phartneriaeth Effaith Diwygio Lles Gweithredol Ynys Môn at anawsterau sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau ar gyfranogwyr y Rhaglen Waith o ran cael mynediad at gyrsiau hyfforddiant a sgiliau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Dywedodd Oxfam Cymru ei fod yn gobeithio y byddai datganoli'r Rhaglen Waith yn ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Rhwystrau eraill i gyflogaeth

167. Roedd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys y Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant, Achub y Plant a Chwarae Teg yn dweud bod cost gofal plant yn rhwystro

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

⁷¹ *ibid.*

⁷² *ibid.*

sylweddol i deuluoedd allu cael gwaith, yn enwedig rhieni unigol a phobl mewn tlodi dybryd. Yn ôl Achub y Plant:

“(...) the high cost of childcare has particular impact on those in severe poverty. This includes parents being forced to cut back on food, being forced in to debt, and parents being unable to take advantage of work and training opportunities which perpetuates the poverty trap”.⁷³

168. Aeth ymlaen i ddweud, er gwaethaf y pwyslais a roddir gan Lywodraeth Cymru ar y swyddogaeth ddeuol sy'n gysylltiedig â gofal plant, hynny yw meithrin y plentyn a chefnogi'r teulu, mae llawer o rieni yng Nghymru, yn enwedig y rhai ar incwm isel, yn dal i gael trafferth i gael gofal plant addas.⁷⁴

169. Cyfeiriodd Barnardos Cymru at frechwast am ddim mewn ysgolion fel enghraifft ymarferol o bolisi Llywodraeth Cymru sy'n helpu teuluoedd ar incwm isel sy'n gweithio, yn enwedig menywod. Eglurwyd bod y polisi hwn yn darparu gofal plant am ddim ar ôl oriau ysgol ar gyfer rhieni sy'n gweithio, a'i fod hefyd yn helpu i ddiwallu anghenion sylfaenol y plant, o ran bwyd iach. Fodd bynnag, soniodd Barnardos Cymru bod nifer o glybiau brechwast wedi cau ar ôl i'r arian ar gyfer brechwast am ddim mewn ysgolion gael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw.

Gwneud yn fawr o incwm

170. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr nad yw gwaith yn opsiwn i rai pobl mewn tlodi, fel pobl anabl a phobl hŷ n. Mae gwasanaethau gwneud yn fawr o incwm a chynghori yn hanfodol i'r grwpiau hyn, ond mae'r dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod y gwasanaethau yn dal i fod yn anghyson ledled Cymru, a bod diffyg ymwybyddiaeth am y cymorth sydd ar gael.

171. Dywedodd Cyngor ar Bopeth y gall cyngor da helpu pobl i osgoi problemau a allai gynyddu eu risg o dlodi ac anfantais.⁷⁵ Cyfeiriodd Age Cymru at y Credyd Pensiwn. Ychydig iawn sy'n ei hawlio yng Nghymru ac nid yw un rhan o dair o'r bobl hŷ n sy'n gymwys yn ei dderbyn:

“A conservative estimate is that unclaimed Pension Credit could be worth upwards of £168 million in Wales, based on UK Government analysis of total unclaimed benefits. By rights this income should be being shared by around 95,000 people not currently claiming. This

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 22

⁷⁴ *ibid.*

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 11

would mean an average additional unclaimed income of £34 per week, or £1772 a year - money which would make a real difference to the lives of many older people.”⁷⁶

172. Aeth rhagddo i ddweud:

“If the Welsh Government, working with local authorities, made a commitment to ensure adequate income maximisation services were available to older people in Wales it could make a substantial contribution to reducing pensioner poverty.”⁷⁷

173. Gwnaed pwyntiau tebyg gan y Comisiynydd Pobl Hŷn a oedd yn honni bod mynd i'r afael â chymorth ariannol sydd heb ei hawlio gan bobl hŷn yn allweddol i godi pobl allan o dlodi.⁷⁸

174. Tynnodd Leonard Cheshire Disability sylw at y ffaith bod y gwasanaethau cynghori yn amrywio'n rhanbarthol ac yn dibynnu ar fod yr awdurdodau lleol yn rhagweithiol o ran helpu pobl i ddeall pa fudd-daliadau sydd ar gael iddynt.⁷⁹

175. Mynegodd Age Cymru bryderon am y posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol dynnu arian yn ôl neu gwtogi ar yr arian ar gyfer gwasanaethau cynghori a gwasanaethau cymunedol eraill, gan gynnwys gwasanaethau trafndiaeth a llyfrgelloedd.⁸⁰

176. Yn gysylltiedig â hyn, clywsom dystiolaeth am bryderon ynghylch cynhwysiant digidol, wrth i fwy a mwy o'r system lesiant gael ei rhoi ar-lein. Dangoswyd hyn gan Bartneriaeth Effaith Diwygio Lles Gweithredol Ynys Môn:

“Anglesey has the highest percentage of people who have never used the internet in the whole of the UK (...) nearly 30% of people on the island have never accessed the internet, compared to 13% in Gwynedd and 17% in Flintshire and Wrexham.

In addition, those who are digitally excluded face barriers to claiming benefits from Jobcentre Plus, the local authority and Her Majesty's Revenue and Customs as the “digital where appropriate” agenda

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 05

⁷⁷ *ibid.*

⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 20

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, 13 Tachwedd 2014

gathers pace. They are also unable to access cheaper online tariffs for utilities, insurance etc, thus increasing the overall cost of living.”⁸¹

Taliadau argyfwng

177. Soniodd llawer bod y taliadau argyfwng yn hollbwysig i bobl mewn tlodi dybryd.

178. Dywedodd y Groes Goch Brydeinig ei bod ar hyn o bryd yn darparu cymorth i geiswyr lloches a cheiswyr lloches aflwyddiannus mewn tlodi dybryd nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus. Caiff hyn ei ariannu gan gronfeydd elusennol y Groes Goch Brydeinig, ac mae'n £12,000 y flwyddyn yng Nghymru. Esboniodd:

“Currently, we are relying on British Red Cross charitable funds to support these individuals living in Wales who are unable to buy even the most basic of items to live, when funding and public donations are becoming more and more challenging to secure.”⁸²

179. Eglurodd hefyd fod cynllun tebyg yn cael ei ariannu gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

180. Croesawodd y Groes Goch Brydeinig y Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, fel ffordd dda ac ymarferol o helpu i fynd i'r afael â thlodi.⁸³ Nod y grant yw helpu pobl sydd â statws ffoaduriaid i ddod yn rhan o gymunedau Cymru.

181. Fodd bynnag, soniodd y Groes Goch Brydeinig ac Oxfam hefyd am y meini prawf caeth a ddefnyddir gan Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru (DAF), a bod y broses ymgeisio y tu hwnt i rai pobl. Dywedodd Oxfam wrthym fod tanwariant o £2.5 miliwn yn y gronfa y llynedd, ac nad diffyg angen oedd yn gyfrifol, ond yr anhawster o gael mynediad i'r gronfa.

182. O ran y broses ymgeisio, eglurodd y Groes Goch Brydeinig fel a ganlyn:

“We have anecdotal evidence that people who [...] apply for assistance from the discretionary assistance fund are very often told that one of the conditions, whether it is written or just established practice, is that they need to have applied for a budgetary loan first. In order for them to apply for a budgetary loan, there is a condition that they have to be on benefits. Now, people who are not on benefits and do

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 14

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig PIW 16

⁸³ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

not have any income go to the discretionary assistance fund precisely because of that reason.”⁸⁴

183. Yn ogystal â hyn, tynnodd Changing Lives sylw at yr anawsterau ymarferol o wneud cais am y DAF, yn enwedig cost ceisiadau dros y ffôn a'r posibilrwydd y symudir at geisiadau electronig, sy'n codi problemau o ran allgáu digidol.

Tystiolaeth y Gweinidog

184. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod cysylltiadau agos rhwng y polisïau economaidd a'r ymdrechion i drechu tlodi. Dywedodd: “whilst I accept in-work poverty has grown, I still think work is the most sustainable route out of poverty, and I think that’s why (...) jobs and growth is absolutely at the heart of the programme for government.”⁸⁵

185. Dywedodd fod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu'r model ar gyfer cefnogi mentrau cymdeithasol, er mwyn ystyried “how that sector can provide more opportunities to build capacity and skills and boost the economy through improving employment prospects of the economically inactive and workless.”⁸⁶

186. Yn benodol mewn perthynas ag aelwydydd di-waith, rhoddodd fanylion am Raglen Esgyn Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig hyfforddiant i bobl o aelwydydd di-waith am 12 wythnos er mwyn cael gwaith amser llawn iddyn nhw.⁸⁷ O'r 5,000 o leoedd hyfforddi yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru iddyn nhw, cadarnhaodd swyddog y Gweinidog bod 1,000 wedi'u defnyddio a bod 180 o bobl wedi cael gwaith.⁸⁸

187. Aeth ymlaen i ddweud bod Llywodraeth Cymru, o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, yn ymrwymedig i gyflwyno “positive weightings to allow for the impact of bringing harder-to-reach groups into work as part of our appraisal process for grant support business”.⁸⁹

188. O ran y Rhaglen Waith, ar 5 Chwefror 2015, [cyhoeddodd](#) y Dirprwy Weinidog Sgiliau y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydweithio ar ateb fel y gall y rhai sy'n rhan o'r Rhaglen Waith

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, 3 Rhagfyr 2014

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

⁸⁶ *ibid.*

⁸⁷ *ibid.*

⁸⁸ *ibid.*

⁸⁹ *ibid.*

yng Nghymru gael mynediad at raglenni priodol Cronfa Gymdeithasol Ewrop o fis Ebrill 2015 ymlaen.

189. Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ei bod yn ystyried defnyddio cronfeydd Ewropeaidd i drechu tlodi:

“We’re working up something called PaCE—parents, childcare and employment—bids, which again will support parents getting into work but also if they need employment and training opportunities and upskilling and childcare is a barrier there. So, we are seeking to use European funding around that area.”⁹⁰

190. Gofynnwyd i'r Gweinidog am y dystiolaeth a glywsom bod y meini prawf ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn rhy gaeth. Dywedodd wrthym ei fod yn gynllun a arweinir gan alw ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cael ei beirniadu pe na byddai'r meini prawf yn gryf. Aeth ymlaen i esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi codi'r uchafswm y gall rhywun wneud cais amdano o £30 i £50. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod rheolwr Cronfa Cymorth Dewisol yn gweithio gyda sefydliadau rhanddeiliaid fel bod mwy o bobl yn gwybod am y gronfa.⁹¹

191. O ystyried y tanwariant yn y Gronfa Cymorth Dewisol yn 2013-14, gofynnwyd i'r Gweinidog am broffil gwariant y gronfa ar gyfer 2014-15. Cadarnhaodd fod 17,000 o bobl wedi cael bron i £4.9 miliwn⁹² o gronfa o £7 miliwn ers mis Tachwedd 2014.

192. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried sefydlu cronfa argyfwng debyg i'r un yng Ngogledd Iwerddon. Atebodd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £900,000 drwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, ac nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i sefydlu cronfa argyfwng ar wahân.⁹³

193. Wrth roi sylwadau ar y nifer sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer ei gwasanaethau cynghori, a'i bod hefyd wedi sefydlu Gwasanaeth Cynghori Cenedlaethol. Aeth ymlaen i ddweud mai cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhannol yw sicrhau bod pobl yn gwneud cais am fudd-daliadau.⁹⁴

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, 14 Ionawr 2015

⁹¹ *ibid.*

⁹² *ibid.*

⁹³ *ibid.*

⁹⁴ *ibid.*

Ein barn ni

194. Prif fethiant dull y llywodraeth o drechu tlodi yw diffyg polisi economaidd clir. Mae angen mynd i'r afael â hyn, a'i ddatblygu ochr yn ochr â strategaeth effeithiol ar gyfer lleihau tlodi. Rydyn ni'n deall bod [ymchwiliad](#) y Pwyllgor Menter a Busnes i fasnach a mewnfuddsoddi wedi clywed bod angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch ei strategaeth economaidd. Argymhellodd y Pwyllgor, yn ei [adroddiad](#) ym mis Hydref 2014, y dylai Llywodraeth Cymru lunio "strategaeth datblygu economaidd glir". Credwn yn gryf mai dim ond trwy fynd ati'n feiddgar i ailwampio'r economi yn y tymor hir y gellir trechu graddfa'r tlodi yng Nghymru.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, fel rhan o strategaeth datblygu economaidd glir, yn egluro sut y mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'i pholisïau a'i hymyriadau ar gyfer trechu tlodi.

195. Mae hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio. Oherwydd y newidiadau i'r farchnad lafur, nid yw gwaith bellach yn ffordd syml allan o dlodi.

196. Mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r rhan honno o'r farchnad lafur yng Nghymru lle mae'r sgiliau'n isel, fel y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch. Dylai fynd ati i wella ansawdd y swyddi sgiliau isel gan ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddi eisoes, er enghraifft drwy gyflwyno rheolau caffael ac amodau ar arian grant. Byddai hyn yn gwneud llawer i wella ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef tlodi mewn gwaith.

197. Mae'r gwella'r ymgysylltu â'r sector preifat yn hollbwysig i leihau tlodi. Dylai swyddi a gaiff eu creu gan fentrau'r llywodraeth fod yn rhai ansawdd uchel ac yn cynnig cyflogau deche, contractau diogel a phecynnau cyflogaeth da, fel gofal plant ac oriau hyblyg.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei dylanwad ar y rhan honno o'r farchnad lafur lle mae'r sgiliau'n isel (yn enwedig y sectorau gofal, manwerthu a lletygarwch), drwy brosesau caffael ac amodau ar arian grant, er mwyn gwella ansawdd bywyd pobl sy'n dioddef tlodi mewn gwaith. Mae angen gwneud hyn ar y cyd â'r sector preifat drwy wella'r ymwneud â'r sector.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn pwysu am ddatganoli'r Rhaglen Waith, fel bod helpu pobl i gael gwaith yn seiliedig ar wybodaeth leol ac yn canolbwyntio ar bobl sydd bellaf o'r farchnad lafur. Dylai hyn gynnig atebion wedi'u teilwra ar gyfer

gwahanol grwpiau o bobl, yn enwedig menywod a phobl anabl.

198. Hefyd, mae sicrhau'r incwm mwyaf posibl ar gyfer pobl na allant weithio yn bwysig dros ben. Credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i annog mwy o bobl i hawlio'u budd-daliadau, fel y Credyd Pensiwn, ac mae darparu gwasanaethau cynghori yn hanfodol i hyn. Clywsom gan ymatebwyr y gallai Credyd Pensiwn heb ei hawlio fod yn werth dros £168 miliwn i economi Cymru, ond nid oedd [Adolygiad o Wasanaethau Cynghori](#) Llywodraeth Cymru yn 2013 yn cynnwys unrhyw argymhellion o ran cynyddu'r nifer sy'n hawlio'r Credyd Pensiwn.

199. Rydyn ni'n pryderu bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn gwasanaethau cynghori cyffredinol, yn hytrach na'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer pobl ag anghenion penodol, yn enwedig pobl anabl.

200. Rydyn ni hefyd yn pryderu am y ddarpariaeth ar gyfer gwneud taliadau mewn argyfwng. Nid oedd digon yn hawlio o Gronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru, ac felly penderfynodd Llywodraeth Cymru leihau maint y Gronfa yng nghyllideb 2015-16 (o'r £10.2 miliwn gwreiddiol i £7.2 miliwn). Fodd bynnag, rydyn ni wedi cael ar ddeall mai'r rheswm am y tanwariant hwn oedd anawsterau o ran cael mynediad i'r gronfa ac nad oedd digon yn gwybod amdani, yn hytrach nag unrhyw ddiffyg o ran angen.

201. Ers i'r Gweinidog ddod gerbron y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi gwerthusiad o'r Gronfa Cymorth Dewisol. Mae'r gwerthusiad yn cynnwys nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys symleiddio'r ffurflenni cais, darparu hyfforddiant ffurfiol ar gyfer staff a gweithwyr achos perthnasol, ac ehangu'r amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y gellir eu cael drwy'r gronfa. Er bod y rhain i'w croesawu, nodwn mai ffocws y gwerthusiad oedd ystyried a oedd y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei gweithredu yn ôl y bwriad, ynghyd â materion ehangach yn ymwneud â'r prosesau i'w dilyn.

Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i annog mwy i hawlio'u budd-daliadau, fel y Credyd Pensiwn a'r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru.

Argymhellwn fod y meini prawf cymhwyster ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael eu llacio, er enghraifft drwy beidio â gofyn i bobl wneud cais am fenthyciad cyllidebu cyn gwneud cais am gymorth o'r Gronfa. Argymhellwn hefyd fod y dyraniad gwreiddiol o £10.2 miliwn ar gyfer y Gronfa yn cael ei adfer.

Atodiad

202. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i dlodi yng Nghymru gan ganolbwyntio, at ddibenion yr adroddiad hwn, ar dlodi ac anghydraddoldeb.

Cylch gorchwyl

203. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei ymchwiliad:

Ystyried—

- pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau eraill y Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd;
- effeithiau tlodi, yn enwedig amddifadedd a thlodi eithafol, ar wahanol grwpiau;
- sut y mae deddfwriaeth, polisiau a chyllidebau sydd wedi'u targedu at drechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb yn cael eu cydgysylltu a'u blaenoriaethu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Dull y Pwyllgor o weithredu

204. Rhwng 17 Gorffennaf 2014 a 12 Medi 2014, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i lywio ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl a gytunwyd. Daeth [29 ymateb ysgrifenedig](#) i law ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad. Yn ogystal, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae [rhestr o'r dystiolaeth lafar](#) wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

205. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at ei ymchwiliad.

Gwaith allgymorth

206. Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad anffurfiol i randdeiliaid ac fe aeth ar chwe ymweliad â phrosiectau sy'n gweithio gyda phobl ar incwm isel ledled Cymru.